# PWYLLGOR PERSONÉL

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

| **Aelodau sy'n bresennol:** | **Dydd Llun, 25 Medi 2023** |
|---|---|
| **Cadeirydd :** | **Councillor S.A.Knoyle** |
| **Is-gadwirydd:** | **Councillor A.J.Richards** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, J.Hale, J.Henton, C.Lewis, S.Pursey a/ac P.D.Richards |
| **Aelodau di-bleidlais:** | S.K.Hunt, A.Llewellyn, J. Hurley, N. Jenkins, S. Jones, W.F.Griffiths |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S. Rees, A. Hutchings, R. Mort a/ac S. McCluskie |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cynghorydd S Knoyle bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 22 Mai 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/2024**

   Bod y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/2024 yn cael ei nodi.

5. **CYNLLUN ABSENOLDEB ARBENNIG DIWYGIEDIG**

   **Penderfyniad:**
   Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r adroddiad a gylchredwyd, ynghyd â'r asesiad effaith integredig a'r atodiadau, penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cynllun absenoldeb arbennig diwygiedig.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Cydymffurfio â deddfwriaeth a chyfraith cyflogaeth. Sicrhau bod y cyngor yn cael ei hyrwyddo fel 'cyflogwr o ddewis'. A hyrwyddo arfer gorau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 29 Medi 2023.

**Ymgynghoriad:**
Nid oes angen cynnal ymgynghoriad allanol.

6. **<u>ADDUNED Y GWEITHLE AR GYFER Y MENOPOS</u>**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r adroddiad a gylchredwyd, yr asesiad effaith integredig a'r atodiadau, penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo llofnodi Adduned y Gweithle ar gyfer y Menopos.
Byddai'r adduned yn ymrwymo i gefnogi gweithwyr y mae'r menopos yn effeithio arnynt yn y gweithle.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Cefnogi ac ymrwymo i gefnogi gweithwyr y mae'r menopos yn effeithio arnynt yn y gweithle. Drwy lofnodi'r adduned, mae'r cyngor yn dangos ei fod wedi'i ymrwymo i weithwyr sydd yng nghyfnod y perimenopos a'r menopos. Bydd hefyd yn gwella enw da'r cyngor fel 'cyflogwr o ddewis'. Yn bennaf, bydd yn cryfhau gwaith i gynyddu ymwybyddiaeth o'r menopos.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 29 Medi 2023.

Ymgynghoriad:
Gofynnodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol i'r cyngor ystyried llofnodi'r adduned, fodd bynnag nid oedd angen ymgynghori'n allanol ar yr eitem hon.

7. **<u>SIARTER GWRTH-HILIAETH</u>**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig a'r adroddiad a gylchredwyd, penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r Siarter Gwrth-hiliaeth ac ymrwymo iddo.

Bod yr ymgyflwyniad yn dechrau dros gyfnod o 12 mis, a bod y siarter yn cyd-fynd â'r Strategaeth

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
Wrth addunedu, mae'r cyngor yn ymroi i gymryd gwrth-hiliaeth o ddifrif.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 29 Medi 2023.

Ymgynghoriad:
Nid oes angen cynnal ymgynghoriad allanol.

8. **<u>STRATEGAETH LLES ARIANNOL</u>**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r adroddiad a gylchredwyd, yr asesiad effaith integredig a'r atodiadau, penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo a chefnogi'r Strategaeth Lles Ariannol Gweithwyr.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**
I gefnogi gweithwyr y cyngor sy'n wynebu risgiau cynyddol o galedi ariannol oherwydd goblygiadau economaidd a chymdeithasol helaeth.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**
Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn tri diwrnod, a ddaeth i ben am 9.00am ddydd Llun, 29 Medi 2023.

**Ymgynghoriad:**
Nid oes angen cynnal ymgynghoriad allanol

9. **<u>PORTH CYLLID CYFLOG</u>**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r adroddiad a gylchredwyd, caiff yr adroddiad ei nodi er gwybodaeth.

10. **ADRODDIAD GWYBODAETH GWEITHLU 23/24 CHWARTER 1**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r adroddiad a gylchredwyd, caiff yr adroddiad ei nodi er gwybodaeth.

11. **RHAGLEN CYMORTH I WEITHWYR**

**Penderfyniad:**
Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r adroddiad a gylchredwyd, caiff yr adroddiad ei nodi er gwybodaeth.

12. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**